**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Chwefror 2019

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr ynghylch proses cyllideb flynyddol cyrff a ariennir yn uniongyrchol.

Mae cyni wedi bod yn nodwedd amlwg o fewn gwasanaethau cyhoeddus ers 2010, ac mewn cyfnod o leihau cyllidebau mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn ceisio darparu'r wybodaeth orau bosibl i gyrff cyhoeddus er mwyn helpu i gynllunio'n ariannol yn y dyfodol. Fel y gwyddoch, mae ansicrwydd penodol ar y foment ynghylch y lefel o gyllid sydd ar gael ar gyfer gwariant cyhoeddus yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, er mai dim ond cynlluniau refeniw ar gyfer 2019-20 roedd modd i ni eu cyhoeddi yn y Gyllideb ddiweddar, ynghyd â'r cynlluniau cyfalaf ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, roeddem yn cydnabod bod angen cefnogi cynlluniau ariannol y tu hwnt i'r blynyddoedd hyn. Mae adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft, yn dadansoddi amcangyfrifon cyllidol tymor canolig i helpu i gynllunio gwariant ar adnoddau yng Nghymru yn y dyfodol.

Rydych yn cydnabod nad oes gan Lywodraeth Cymru ran yn y broses o bennu cyllideb cyrff a ariennir yn uniongyrchol. Er hynny, rwy'n cydnabod bod angen i bob corff cyhoeddus yng Nghymru fod yn cynllunio ar sail rhagdybiaethau cynllunio realistig a synhwyrol. Yn unol â hyn, ac er mwyn helpu gyda gwaith craffu'r Pwyllgor, byddwn yn hapus i ysgrifennu atoch cyn toriad yr haf i roi gwybodaeth am yr amrywiol ffactorau y gellid eu defnyddio i lunio cynlluniau ar gyfer y gyllideb yn y dyfodol megis y canllawiau diweddaraf am gylchoedd cyflog y sector cyhoeddus, rhagolygon datchwyddydd cynnyrch domestig gros, rhagolygon trethi datganoledig a'n hasesiad gorau posibl o'r lefel gyffredinol o gyllid sydd ar gael ar gyfer y dyfodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, fel rydych yn nodi yn eich llythyr, mae nifer o ffactorau allanol y tu hwnt i'n rheolaeth a allai effeithio ar lefel gyffredinol yr adnoddau a fydd ar gael.  O ganlyniad, bydd unrhyw ganllawiau a ddarperir ond yn gallu cynnwys ein hasesiad gorau posibl ar yr adeg benodol honno, a bydd, wrth gwrs, yn agored i ddiwygiadau.  Er hynny, hyderaf y bydd hwn yn ddefnyddiol o ran cynllunio'r gyllideb.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd